# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Ionawr 17eg 2023 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Jean Roberts, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Rhys Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r cais cynllunio isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Sedd wag ar y Cyngor.
Cafwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd nad oedd cais wedi ei dderbyn am etholiad felly roedd posib i'r Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd Cyfethol'.

b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Amryw o gamfeydd ar y llwybrau cyhoeddus yn ardal Parc angen sylw – mi roedd swyddog y Parc Cenedlaethol wedi bod mewn cysylltiad i drafod y lleoliadau a oedd angen sylw.

c) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25.
Cadarnhaodd y clerc fod y cynllun newydd wedi cael ei ychwanegu i'r wefan.

ch) Cynllun Ardal Ni.
Trafodwyd cynnwys cofnodion y cyfarfod yn Y Bala a gofynnwyd i'r clerc adrodd yn nol beth oedd prif flaenoriaethau'r Cyngor.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
a) Llywodraeth Cymru
i) Dyfodol Cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth
ii) Y Dreth Gyngor: Ymgynghoriadau ar Reoliadau drafft i estyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar Ganllawiau.
iii) Grant ymgysylltu â democratiaeth

b) Un Llais Cymru.
i) Copi o ganllawiau newydd ar fwlïo ac aflonyddu mewn cynghorau – cytunwyd i'w fabwysiadu.
ii) Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

c) Amrywiol.
i) Corff Llywodraethol Cysgod y Foel - dewis cynrychiolwyr newydd. Cytunwyd i ofyn i Huw Charles gynrychioli'r Cyngor.
ii) Gorsaf Heddlu Bala - cynnig ymweld â chyfarfodydd y Cyngor a chyllid ar gael o Gronfa PACT. Cytunwyd i ofyn iddynt fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.
iii) Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn – diweddariad.
iv) Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun grantiau datgarboneiddio cynaliadwy ardaloedd cadwraeth. Cytunwyd i ddosbarthu'r wybodaeth i'r mudiadau lleol.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau canlynol:-
a) NP5/72/250B - Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) NP5/72/252 – Adeiladu estyniad deulawr. Tyn y Sarn, Llidiardau (Rhys Jones yn datgan diddordeb a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

**vi) Materion Ariannol**

a) Llywodraeth Cymru.

i) Swm priodol o dan adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24.

ii) Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2021-22

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Cyllideb a Praesept 2023/24.

i) Wrth edrych ar dyfarniad cenedlaethol cyflog terfynol i glercod cytunwyd i godi cyflog y clerc o Ebrill 2023. Cytunwyd hefyd i gynnwys gwerth 8 awr o gyflog ychwanegol yn y gyllideb.

ii) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer yswiriant, ffioedd archwilio, tal aelodaeth Un Llais Cymru, cyfraniadau i fudiadau ac elusennau ac i ychwanegu £50 ar gyfer prosiectau Bioamrywiaeth (fel y penderfynwyd yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr).

iii) Cytunwyd fod digon o arian i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn. Cytunwyd i gadw'r Praesept ar £4,500 ar gyfer 2023-24.

ch) Taliadau.

Cytunwyd i dalu:

i) ICO

ii) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)

iii) TWE

iv) HG Web Designs(gwefan)

Cymeradwywyd hefyd i'r clerc symud ymlaen i brynu'r gliniadur a argymhellir gan y siop gyfrifiaduron ac i brynu'r meddalwedd pwrpasol os byddai angen.

d) Ceisiadau Ariannol.

i) Derbyniwyd ceisiadau gan Dawns i Bawb, Yes Cymru, CFFI Meirionnydd ac Urdd Cylch Meirionnydd. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Ffordd wedi gwanhau ger Groeslon, Maesywaen.

ii) Coeden ger Pentrefelin, Parc yn beryg o ddisgyn i'r ffordd

iii) Coeden helyg yn tyfu drwy cattle grid y Nodol, Arenig.

iv) Nifer o gwteri wedi tagu a dŵr yn hel ar y ffordd ar rhiw Plas Madog, ger mynedfa Rafail a Hafod y Nant, Parc.

v) Pant yn y ffordd ger y Fedw, Parc.

vi) Cwynion fod canghennau'r coed ar riw Parc yn rhigo ochrau loriau 'curtain siders'.

vii) Pryder fod lorïau artic yn dilyn cyfarwyddiadau eu sat-nav ac yn dod o gyfeiriad Wern Goch ac yn ceisio dod drwy bentref Parc. Roedd angen arwydd ar dop y rhiw cyn dod i'r pentref yn rhybuddio fod pont gul/cyfyngiad lled/i beidio dilyn cyfarwyddiadau sat-nav.

viii) Pryder am ddiogelwch gyrrwr yn ceisio ymuno a'r A494 ger Wern Goch, gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 14eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….